23/04/2026

# Diffiniadau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Cynnwys ....2
Rhestr o ddiffiniadau....4
  Gwybodaeth am yr arolwg....4
    Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ....4
    Teithio....4
  Dulliau trafnidiaeth ....4
    Cerdded ac olwynio....4
    Beicio....4
    Beic ....4
    Bws....4
    Tacsi....5
    Car....5
    Trên....5
    Trafnidiaeth gymunedol ....5
    Awyren ....5
    Fferi neu gwch....5
    Teithio llesol....6
    Trafnidiaeth gyhoeddus....6
    Trafnidiaeth gynaliadwy....6
    Teithiau amlfoddol ....6
  Agweddau ac ymddygiadau teithio ....6
    Dyddiadur teithio ....6
    Diwrnod teithio ....6
    Taith....6
    Pellter a deithiwyd....7
    Pwrpas y daith ....7
    Prif fodd trafnidiaeth....8
    Rhannu'r modd....8
    Moddau trafnidiaeth ychwanegol....8
    Defnyddwyr trafnidiaeth ....8
    Ymdeimlad o groeso....8

Cardiau neu docynnau teithio consesiynol ..... 8
Cardiau teithio neu docynnau gostyngol ..... 8
Teithio annibynnol ..... 9
Defnyddwyr — a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr — o wahanol ddulliau o drafnidiaeth. ..... 9
Defnyddwyr ..... 9
Pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr ..... 9
Demograffeg a daearyddiaeth ..... 9
Gweithwyr o bell ..... 9
Statws cyflogaeth ..... 10
Anabledd ..... 10
Gallu Cymraeg ..... 10
Dosbarthiad gwledig a threfol ..... 11
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ..... 11
Cwintelau MALIC ..... 11
Rhanbarthau Cymru ..... 11
Gwybodaeth dechnegol ..... 12
Cyfweliadau Gwe â Chymorth Cyfrifiadur (CAWI) ..... 12
Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur (CAPI) ..... 12
Hunangyfweliad â chymorth cyfrifiadur (CASI) ..... 12
Grid Kish ..... 12
Cyfnod gwaith maes ..... 12
Cyfnod gwaith maes wyneb-yn-wyneb ..... 12
Gwthio i'r we i orffen ..... 13
Ffeil Cyfeiriad Cod Post ..... 13

# Rhestr o ddiffiniadau

## Gwybodaeth am yr arolwg

### Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn arolwg cenedlaethol sy'n casglu data ar hap ar agweddau ac ymddygiadau teithio o sampl fawr o bobl sy'n byw yng Nghymru .

### Teithio

O ran y term ‘teithio’ rydym yn golygu'r teithiau a wneir at eich dibenion eich hun, megis mynd i siopa, mynd i'r gwaith neu ddychwelyd adref. Pan fo gwaith person yn cynnwys cludo neu ddanfon nwyddau neu bobl (megis gweithio fel gyrrwr bws neu yrrwr dosbarthu) nid yw'r teithiau hyn yn cael eu hystyried yn teithio. Nid yw teithiau ar gyfer pleser, ymarfer corff neu gerdded y ci yn cael eu hystyried yn ‘teithio’.

## Dulliau trafnidiaeth

### Cerdded ac olwynio

Mae cerdded yn cynnwys pob taith ar droed, gan gynnwys rhedeg a cherdded gyda chymorth symudedd.

Mae olwynio yn cynnwys defnyddio sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn gyda, a heb fodur, sglefrolio, sglefrfyrddio neu sgwteri heb fodur.

Nid ydym yn cynnwys cerdded neu olwynio ar gyfer pleser, ymarfer corff, na cherdded y ci.

### Beicio

Beicio fel dull cludo yw pan fyddwch chi'n beicio i gyrraedd cyrchfan benodol, fel gwaith, y siopau, neu i ymweld â ffrindiau. Nid yw teithiau beicio ar gyfer pleser neu ymarfer corff yn cael eu hystyried yn ‘teithio’.

### Beic

Beic yw unrhyw feic pedal a ganiateir ar y ffordd gyhoeddus. Mae beiciau yn cynnwys beiciau trydan neu e-feiciau (lle mae modur trydan yn cynorthwyo pedalu) a beiciau tair olwyn, yn ogystal â beiciau ansafonol megis beiciau wedi'u haddasu (beiciau neu feiciau tair olwyn wedi'u haddasu'n arbennig i'w defnyddio gan bobl anabl), beiciau cargo a gorweddol.

### Bws

Mae teithio ar fws yn cynnwys yr holl wasanaethau bws i mewn i Gymru, allan ohoni ac o fewn Cymru sy'n cael eu rheoli gan unrhyw weithredwr, gan gynnwys TrawsCymru.

Mae gwasanaethau bws fel arfer yn gweithredu ar lwybrau sefydlog neu amserlenni ac yn codi pris sefydlog. Mae rhai gwasanaethau yn ymateb i alw teithwyr, yn hytrach nac amserlen sefydlog; er enghraifft, gwasanaethau fflecsi Trafnidiaeth Cymru.

Nid yw bysiau/coetsys pellter hir na theithiau tywys wedi'u cynnwys o dan y diffiniad.

## Tacsi

Gellir archebu tacsis o flaen llaw, gan gynnwys gyda galwad ffôn neu drwy 'ap'. Gall tacsis hefyd godi teithwyr o safleoedd tacsi a chael eu galw o'r stryd.

## Car

Teithio car fel dull cludo yw pan fyddwch chi'n gyrru neu yn cael eich gyrru i gyrchfan benodol megis gwaith, y siopau, neu i ymweld â ffrindiau. Nid yw'r cwestiynau yn yr adran hon yn cwmpasu gyrru er pleser yn unig.

At ddibenion yr arolwg hwn, mae'r term car yn cwmpasu pob cerbyd modur preifat, gan gynnwys ceir, cerbydau 4x4, faniau ysgafn, bysiau mini, faniau gwersylla, beiciau modur a mopedi.

Nid yw'n cynnwys teithio mewn tacsi, bws neu drafnidiaeth gymunedol, na theithiau a wneir gan yrwyr neu griw proffesiynol yn ystod eu gwaith; fel bysiau, tacsis, ambiwlansys, craeniau, cerbydau sbwriel, hyfforddwyr gyrru a gyrwyr dosbarthu.

## Trên

Mae teithio ar y trên yn cynnwys yr holl wasanaethau rheilffordd i deithwyr i Gymru, allan ohoni ac o fewn Cymru, gan gynnwys gwasanaethau a weithredir gan TrC, Avanti West Coast, CrossCountry Trains a Great Western Railway.

## Trafnidiaeth gymunedol

Mae gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn wasanaethau lleol (sydd yn gyffredinol yn cael eu rheoli gan elusennau neu grwpiau cymunedol) sy'n darparu cludiant i bobl a fyddai fel arall dan anfantais oherwydd eu hoedran, eu hiechyd neu ble maent yn byw. Mae enghreifftiau'n cynnwys llwybrau bysiau cymunedol neu gynlluniau llogi cerbydau cymunedol. Nid yw'n cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael i unrhyw un i'w ddefnyddio.

## Awyren

Teithio awyr fel dull cludo yw pan fyddwch chi'n hedfan i gyrchfan benodol, fel gwyliau, ymweld â ffrindiau a theulu neu ar gyfer gwaith. Nid yw'n cynnwys hedfan er pleser yn unig. Nid yw'n cynnwys unrhyw hediadau preifat neu filwrol.

Ar gyfer teithiau awyren, dim ond profiad yr ymatebydd yn y maes awyr ei hun sydd o bwys.

## Fferi neu gwch

Mae hyn pan fyddwch chi'n teithio mewn cwch i gyrchfan benodol, fel gwyliau, ymweld â ffrindiau a theulu neu ar gyfer gwaith. Nid yw'n cynnwys hwylio er pleser yn unig.

Ar gyfer teithiau fferi neu gychod, dim ond profiad yr ymatebydd yn ymatebydd yn y porthladd sydd o bwys.

## Teithio llesol

Mae teithio llesol yn cyfeirio at deithiau pwrpasol a wneir trwy gerdded, olwynio a beicio, yn hytrach na cherdded hamdden, olwynio a beicio.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cyfeirio at wasanaethau trafnidiaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, fel arfer ar lwybrau sefydlog neu amserlenni sy'n codi pris sefydlog. Yng Nghymru, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd.

## Trafnidiaeth gynaliadwy

Mathau o drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Teithiau amlfoddol

Teithiau trafnidiaeth sy'n cynnwys mwy nag un dull o drafnidiaeth.

# Agweddau ac ymddygiadau teithio

## Dyddiadur teithio

Mae dyddiadur teithio yn gofnod o'r holl deithiau a wneir mewn cyfnod penodol. Ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, mae'r dyddiadur teithio yn casglu gwybodaeth am y ddau ddiwrnod blaenorol. Mae hyn yn cynnwys cyrchfannau teithio, dibenion taith, dulliau trafnidiaeth a ddefnyddir a'r amser gadael. Lle bo'n berthnasol, bydd y dyddiadur teithio hefyd yn cofnodi:

- y nifer o bobl teithiodd yr ymatebydd gyda nhw
- p'un a oeddent yn yrrwr neu'n deithiwr mewn car
- y math o danwydd cerbyd, gorsaf reilffordd neu safleoedd bws a ddefnyddir
- cost eu taith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

## Diwrnod teithio

Mae diwrnod teithio yn dechrau ac yn gorffen am 05:00, sy'n cwmpasu 24 awr.

## Taith

Mae taith, neu 'trip', yn ffordd unffordd o deithio i gyrchfan at bwrpas penodol. Mae teithiau allan a dychwelyd yn cael eu trin fel dwy daith ar wahân. Nid yw gweithgareddau er pleser, neu at unrhyw bwrpas neu leoliad penodol (er enghraifft, "cerdded y ci" neu "rhedeg i gadw'n heini") yn cael eu cynnwys.

Dim ond teithiau a ddechreuodd a/neu a orffennodd yng Nghymru sydd o ddiddordeb. Mae teithiau a gofnodwyd yn gyfan gwbl y tu allan i Gymru yn cael eu dileu.

## Pellter a deithiwyd

Dyma'r pellter mewn cilomedrau rhwng y tarddiad a'r gyrchfan ar gyfer taith. Cyfrifir pellter trwy gyfuno'r geo-leoliadau tarddiad a chyrchfan, y prif ddull trafnidiaeth ac amser cychwyn y daith a defnyddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau TravelTime Routes API.

Ar gyfer teithiau cerdded, olwynio a beicio, cynhwysir llwybrau sy'n defnyddio ffyrdd a llwybrau lle caniateir cerdded neu feicio. Ar gyfer pob dull arall nad yw'n rheilffordd, dim ond ffyrdd a ddefnyddir.

Defnyddir y llwybr mwyaf uniongyrchol posibl tuag at, ac o orsaf reilffordd ochr-yn-ochr â'r llwybr byrraf rhwng y ddwy orsaf yr ymwelodd yr ymatebydd.

Gan nad ydym yn cofnodi'r union lwybrau a ddefnyddir gan deithiau bws neu reilffordd, gall y pellter amcangyfrifedig a deithiwyd ar gyfer y dulliau hyn fod yn wahanol i'r pellter gwirioneddol.

## Pwrpas y daith

Pwrpas y daith yw'r rheswm dros y daith. Fel arfer dyma'r gweithgaredd yn y gyrchfan. Dibenion y daith yw:

- Ymarfer corff neu chwaraeon
- Gwyliau neu daith ddydd
- Ymgynghoriad neu driniaeth feddygol
- Apwyntiad personol (e.e. banc, trin gwallt neu olchdy)
- Taith bersonol yn ystod y gwaith (gan gynnwys rhwng lleoliadau gwaith)
- Siopa, hyd yn oed os nad oedd unrhyw fwriad i brynu unrhyw beth
- Addysg (e.e. i'r ysgol, coleg)
- Cymdeithasol neu adloniant (e.e. cwrdd â ffrindiau neu deulu, gwaith gwirfoddol)
- Cyfrifoldebau gofalu anffurfiol (e.e. gofalu am berthynas hŷn)
- Cyd-deithio â rhywun (e.e. hebrwng neu godi rhywun)
- Dychwelyd adref
- Cymudo
- Arall

Mae teithiau cymudo yn newidyn sy'n deillio. Mae'r newidyn hwn yn cyfuno dibenion y daith "mynd i'r gwaith" ac is-sampl o deithiau "dychwelyd adref", lle mae'r ymatebydd wedi gwneud taith i'w fan gwaith o'r blaen.

Mae teithiau "dychwelyd adref" eraill wedi'u hailgodio fel teithiau "gwyliau neu daith undydd" lle mae'r ymatebydd yn dychwelyd o wyliau neu daith undydd, neu lle mae ei daith gyntaf o leoliad nad yw'n gartref i gartref.

Eithrir teithiau ar gyfer hamdden yn unig, lle mae'r weithred o deithio yn weithgaredd hamdden neu bleser (er enghraifft, rhedeg neu chwaraeon eraill). Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Deddf Teithio Llesol (2025) o deithiau. Fodd bynnag, mae teithiau i gyrchfan lle gwneir gweithgareddau hamdden neu bleser (e.e. teithio i faes ar gyfer gêm) yn cael eu cynnwys fel "Ymarfer corff neu fynd i wneud chwaraeon". Yn yr un modd, byddai teithiau ar gyfer pleser sy'n cynnwys cwrdd â

ffrind neu aelod o'r teulu yn cael eu cynnwys fel taith ar gyfer "Cymdeithasol neu adloniant (e.e. cwrdd â ffrindiau neu deulu, gwaith gwirfoddol)".

## Prif fodd trafnidiaeth

Y dull trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio'r pellter hiraf o unrhyw daith unigol. Y dulliau trafnidiaeth a gynhwysir yw:

- Bws
- Beicio
- Car neu gerbydau modur eraill (megis fan ysgafn, fan gwersylla, beic modur, moped)
- Tacsi
- Trên
- Cerdded neu olwynio
- Arall

## Rhannu'r modd

Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl gwahanol brif ddulliau.

## Moddau trafnidiaeth ychwanegol

Moddau trafnidiaeth a ddefnyddir yn ychwanegol at y prif fodd. Mae teithiau sy'n defnyddio moddau ychwanegol yn deithiau amlfoddol.

## Defnyddwyr trafnidiaeth

Mae ymatebwyr yn cael eu hystyried yn ddefnyddwyr dull penodol o drafnidiaeth os ydynt yn nodi eu bod wedi defnyddio'r modd "y mwyafrif o ddyddiau", "nifer o weithiau yr wythnos", "unwaith yr wythnos", "unwaith neu ddwywaith y mis" ac "unwaith bob cwpwl o fisoedd".

## Ymdeimlad o groeso

Teimlo'n ddiogel rhag aflonyddu neu niwed personol, ac ymdeimlad o gysur a pherthyn yn eich amgylchedd.

## Cardiau neu docynnau teithio consesiynol

Mae cardiau teithio consesiynol neu docynnau yn caniatáu i ddefnyddwyr deithio am ddim neu ar bris gostyngol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cerdyn Teithio Rhatach 60 a hŷn, neu Gerdyn Teithio Rhatach i Berson Anabl.

## Cardiau teithio neu docynnau gostyngol

Mae cardiau teithio neu docynnau gostyngol yn darparu gostyngiadau ar gyfer teithio. Mae enghreifftiau'n cynnwys cerdyn rheilffordd 26-30.

### Teithio annibynnol

Mae teithio annibynnol yn golygu teithio heb gymorth unrhyw staff neu deithwyr nad oedd ymatebydd wedi dechrau eu taith gyda nhw. Gall hyn fod yn gymorth gyda bagiau, neu ddod o hyd i le ar gyfer cadair olwyn neu gadair wthio.

Nid yw hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle efallai y bydd angen i ymatebydd ofyn am gyfarwyddiadau, gwirio amseroedd gadael neu rifau platfform rheilffordd neu safleoedd bysiau.

## Defnyddwyr — a’r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr — o wahanol ddulliau o drafnidiaeth.

Gofynnir i'r ymatebwyr pa mor aml maen nhw'n defnyddio gwahanol ddulliau o drafnidiaeth. Mae hyn yn effeithio ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn i ymatebwyr. Mae ymatebwyr yn cael eu hystyried naill ai'n ddefnyddwyr neu beidio, yn dibynnu ar amlder y defnydd.

### Defnyddwyr

Mae ymatebwyr yn cael eu hystyried yn ddefnyddwyr os ydynt wedi defnyddio'r dull trafnidiaeth o leiaf unwaith neu ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer:

- Cerdded ac olwynio
- Beicio
- Bws
- Trên
- Tacsi

Mae ymatebydd yn cael ei ystyried yn ddefnyddiwr car os ydynt yn teithio mewn car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, o leiaf unwaith bob deufis.

### Pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr

Ystyrir nad yw ymatebwyr yn ddefnyddwyr y gwahanol ddulliau o drafnidiaeth os ydynt wedi nodi nad oeddent wedi teithio yn y modd o gwbl yn ystod y 12 mis diwethaf.

Ar gyfer teithiau mewn car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr, nid yw ymatebydd yn ddefnyddiwr os ydynt yn teithio mewn car unwaith neu ddwywaith yn ystod y flwyddyn, neu ddim o gwbl.

## Demograffeg a daearyddiaeth

### Gweithwyr o bell

Mae ymatebwyr yn cael eu hystyried yn weithwyr o bell os ydynt naill ai "mewn unrhyw gyflogaeth â thâl neu hunangyflogaeth (neu i ffwrdd dros dro, ar wyliau neu’n sâl)" neu "absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu rieni a rennir" ac wedi nodi eu bod fel arfer yn "gweithio o bell; er enghraifft, o gartref, neu yn agos at gartref o siop goffi neu lyfrgell leol".

# Statws cyflogaeth

Mae tri grŵp lefel uchel ar gyfer statws cyflogaeth wedi'u creu: cyflogedig, di-waith a "ddim yn y gweithlu".

## Cyflogedig

Mae hyn yn cynnwys ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn y saith diwrnod blaenorol wedi bod naill ai "Mewn unrhyw gyflogaeth â thâl neu hunangyflogaeth (neu i ffwrdd dros dro, ar wyliau neu yn sâl)" neu "ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu rieni a rennir".

## Di-waith

Mae hyn yn cwmpasu ymatebwyr sy'n nodi yn y saith diwrnod blaenorol eu bod wedi bod yn "ddi-waith ac yn chwilio am waith".

## Ddim yn y gweithlu

Mae hyn yn cynnwys ymatebwyr sy'n nodi yn y saith diwrnod blaenorol eu bod wedi bod yn "Ymddeol (p'un a ydych yn derbyn pensiwn ai peidio)", "Myfyriwr amser llawn, gan gynnwys ar wyliau neu hanner tymor", "Methu gweithio oherwydd salwch neu nam hirdymor", "Gofalu am gartref neu deulu", neu "Arall".

# Anabledd

Mae ymatebydd yn cael ei ddosbarthu fel anabl (Deddf Cydraddoldeb 2010) os ydynt yn ateb "oes" i'r cwestiwn "Oes gennych unrhyw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para neu'n debyg o 12 mis neu fwy?" a naill ai "ydy, ychydig" neu "ydy, yn fawr" i'r cwestiwn "Ydy unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych chi'n lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau pob dydd?".

# Gallu Cymraeg

Ystyrir bod gan ymatebydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg os gallant wneud unrhyw un o'r canlynol:

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg.

Nid yw'r data hyn yn uniongyrchol gymharol ag Arolwg Cenedlaethol Cymru, a ofynnodd gwestiynau 'ie neu na' i ymatebwyr am eu gallu i ddeall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu gallu i siarad Cymraeg, gydag ateb ychwanegol "na, ond mae ganddynt rywfaint o allu siarad Cymraeg".

Yn ogystal, nid yw'r data hyn yn uniongyrchol gymharol â Chyfrifiad y DU, a oedd ond yn caniatáu ateb deuaidd "ie" neu "na".

## Dosbarthiad gwledig a threfol

Mae'r Dosbarthiad Trefol Gwledig yn ddosbarthiad ystadegol swyddogol ar gyfer Cymru a Lloegr, a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Mae'n seiliedig ar aneddiadau ac mae ar gael ar gyfer rhai ystadegau a daearyddiaeth weinyddol (gan gynnwys daearyddiaeth y Cyfrifiad ac awdurdodau lleol). Defnyddir y dosbarthiad mewn cyfuniad â setiau data eraill i gynhyrchu dadansoddiad sy'n gwahaniaethu rhwng nodweddion ardaloedd gwledig a threfol.

Mae pob ardal allbwn hefyd yn cael eu gwahaniaethu gan a ydynt yn agosach at dref neu ddinas fawr neu'n ymhellach oddi wrth dref neu ddinas. Felly, mae'r dosbarthiad yn cynnwys:

### Gwledig

- Llai Gwledig: Ymhellach o dref neu ddinas fawr
- Llai Gwledig: Yn agosach at dref neu ddinas fawr
- Mwy gwledig: Ymhellach o dref neu ddinas fawr
- Mwy gwledig: Yn agosach at dref neu ddinas fawr

### Trefol

- Trefol: Ymhellach o dref neu ddinas fawr
- Trefol: Yn agosach at dref neu ddinas fawr

### Ardaloedd trefol

Mae ardaloedd trefol yn cael eu pennu fel aneddiadau, trefi neu ddinasoedd gyda phoblogaethau o 10,000 neu fwy, yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021.

### Ardaloedd gwledig

Mae pobman arall yn ardal wledig; sy’n cynnwys tref gwledig, pentref, pentrefynnau, anheddau ynysig a chefn gwlad.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

MALIC yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru.

## Cwintelau MALIC

Mae ardaloedd Cymru wedi'u grwpio mewn i pump cwintel, yn seiliedig ar eu safle cymharol. Rhennir y set ddata yn bum maint cyfartal gan y cwintelau. Y cwintel cyntaf yw'r 20% isaf o werthoedd, yr ail yw'r 20% nesaf ac yn y blaen.

## Rhanbarthau Cymru

Mae pedwar rhanbarth Cymru wedi cael eu defnyddio yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ar gyfer samplu a dadansoddi. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

- Canolbarth Cymru: Ceredigion, Powys
- Gogledd Cymru: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam

- De-ddwyrain Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg
- De-orllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Benfro

Daw dadansoddiad ar lefel ranbarthol o ble mae'r ymatebydd yn byw, yn hytrach na lle digwyddodd y teithiau. Gall ymatebydd o ogledd Cymru gwblhau teithiau yng nghanolbarth Cymru ond byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn deithiau gogledd Cymru.

# Gwybodaeth dechnegol

## Cyfweliadau Gwe â Chymorth Cyfrifiadur (CAWI)

Unigolyn yn cwblhau'r arolwg ar-lein.

## Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur (CAPI)

Unigolyn yn cwblhau'r arolwg gyda chymorth person, naill ai mewn amgylchedd wyneb-yn-wyneb neu deleffon. Mae'r cyfwelydd gwaith maes yn cofnodi'r atebion ar ran yr ymatebydd.

## Hunangyfweliad â chymorth cyfrifiadur (CASI)

Unigolyn yn cwblhau'r arolwg ei hun mewn amgylchedd wyneb-yn-wyneb.

## Grid Kish

Dull ar gyfer dewis aelwydydd, unedau annedd (llety byw hunangynhwysol) ac unigolion ar hap i gymryd rhan yn yr arolwg.

## Cyfnod gwaith maes

Gall ymatebydd gwblhau'r arolwg unrhyw bryd yn yr wyth wythnos ar ôl anfon y llythyr gwahoddiad cychwynnol i'w aelwyd. Diffinnir y cyfnod wyth wythnos hwn fel y cyfnod gwaith maes.

Ar ôl yr wythnos gyntaf o waith maes, anfonir y llythyr atgoffa cyntaf at aelwydydd nad ydynt wedi cwblhau'r Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (ATCC) eto. Mae'r llythyr hwn yn cynnig y cyfle i optio i mewn i ddull cwblhau ffôn.

Ar ôl wythnos arall o waith maes, mae ail lythyr atgoffa yn cael ei anfon at aelwydydd nad ydynt eto wedi cwblhau ATCC neu wedi archebu cyfweliad ffôn. Yn y llythyr hwn, hysbysir aelwydydd y bydd cyfwelwyr gwaith maes yn curo ar ddrysau ac yn annog cyfranogiad, gan ddechrau'r wythnos ganlynol.

## Cyfnod gwaith maes wyneb-yn-wyneb

Mae'r cyfnod gwaith maes wyneb-yn-wyneb yn dechrau tua thair wythnos ar ôl anfon y llythyrau gwahoddiad cychwynnol. Mae hyn yn para am bum wythnos a dyma le gall cyfwelwyr gwaith maes gnocio ar ddrws pobl i geisio cael cyfweliad arolwg.

## Gwthio i'r we i orffen

Mae gwthio-i'r-we yn gyfweliad lle mae ymatebydd yn cwblhau'r arolwg ar-lein yn ystod y cyfnod gwaith maes wyneb-yn-wyneb. Efallai mai dyma le mae presenoldeb y cyfwelydd gwaith maes wedi gwthio'r ymatebydd i gwblhau ATCC ar-lein.

## Ffeil Cyfeiriad Cod Post

Mae Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) y Post Brenhinol yn rhestr o holl gyfeiriadau yn y DU, ac eithrio llety sefydliadol a sefydliadau cymunedol, fel cartrefi gofal preswyl.

Mae'r ffeil wedi cael ei ddefnyddio fel y ffrâm y sampl, wedi'i hidlo ar gyfer cyfeiriadau Cymraeg yn unig.